# Cyngor Cymuned Tudweiliog

Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

## Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 13eg Chwefror 2023

Presennol: Gareth Jones, Alyn Williams, Terry Huws, Chris Brady, Dafydd Richard Williams, Sian Parri, Catrin Williams, Alan Hughes, Sioned Pearson, John Davies.
Ymddiheuriadau: Henry Huws

1. Cadeiriwyd gan Gareth Jones ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o’r cofnodion:
   a. **Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (Hysbysfwrdd) –** Deallodd y Clerc fod Morfa Nefyn wedi gosod amryw o hysbysfyrddau au bod wedi eu gwneud gan Lewis .. Saer Coed lleol. Bydd y Clerc yn gofyn iddo am bris.
   b. **Tir Garnfadryn-** Derbynniodd y Clerc bris am werth y tir gan John Lloyd Williams LWH Property:
      “Mae’r llain o dir wedi ei leoli ar y ffordd sydd yn cysylltu Garnfadryn a Llaniestyn.
      Mae'n ymestyn i 0.27 erw a bellach wedi tyfu yn wyllt.
      Mae'n ymddangos bod mynedfa i'r tir oddi ar y ffordd breifat ond mae'rsafle gyda ffryntiad i'r ffordd gyhoeddus hefyd.
      Gwerth yr eiddo ar sail rhydd-daliad gyda mediant gwag yw £5,000 i £8,000.
      O edrych ar Land registry nid yw'r tir wedi ei gofrestru. Cost darparu plan fyddai £100.
      Os gallwn fod o unrhyw gymorth pellach peidiwch a oedi i gysylltu.”
      Bydd y Clerc yn cysylltu’n ol hefo’r cwmni i ofyn iddynt symund ymlaen i’w gofrestru.
   c. **Cyfethol – 1 sedd wag –** Cafwyd ar ddeall fod person o bentref Garnfadryn wedi ymedgi diddordeb, bydd yn cadarnhau erbyn mis Mawrth
   Ch. **Mynwent Newydd Tudweiliog** – Cafwyd ar ddeall fod Stad Cefnamwlch wedi cadarnhau eu bod yn fodlon ar leoliad y Fynwent, bydd y Clerc yn cychwyn ar y gwaith o gyflwyno Cais

Cynllunio a chael profi'r tir.

dd. **Diffib Tudweiliog –** Derbyniodd y Clerc arwyniad ar pa Cabinet sydd angen ei brynu i'r diffib, bydd yn ei archebu yn y dyddiau nesaf.

d. **Archwyliad Allanol Audit Wales –** Bu i'r Clarc gael sawl cyfarfod zoom gyda Audit Wales, bydd yn derbyn ebost yn fuan i gadarnhau fod yr Archwyliad wedi ei gwblhau.

e. **Arwydd 40mya wrth Cyffordd am Towyn** –Derbyniodd y Clerc ebost yn cadarnhau mai bwriad Cyngor Gwynedd cyn diwedd y flwyddyd yw rhoi arwydd 20mya ple mae'r arwyddion 30mya ar y funud, ac yna symud yr arwydd 30mya cyn cyrraedd cyffordd am Towyn o gyfeiriad Edern.

f. **Pont ger Siop y Bont Llangwnnadl** – Derbyniodd y Clerc ebost gan yr adran priffyrdd yn ein gwybyddu fod yr ymholiad wedi ei basio ymlaen i'r Tim Rheoli Asedau Strwythurau.

ff. **Arwydd 'Ysgol' pentref Tudweiliog** – Anfonodd y Clerc ebost at yr adran Priffyrdd, hyn yma ni chafwyd ymateb.

4. Gohebiaeth:

a. **Cais Cynllunio C23/0028/46/DT Pen yr Orsedd,Llangwnnadl-** dim sylw

b. **Cais Cynllunio C23/0092/46/LL Ty Cerrig, Garn Fadryn -** Cefnogi

c. **Arosfan Bws i Dinas –** Derbynwyd ebost gan y Cynghorydd Gareth Jones yn ein gwybyddu fod cais wedi ei roi gan rhieni plant Ysgol Uwchradd sy'n byw yn Dinas yn gofyn am arosfan bws i'w osod yng ngroeslon Dinas, fel bod y plant gallu mochel rhag y glaw a'r gwynt pan yn aros am fws ysgol. Gan nad yw'r Cyngor Sir bellach yn arianu arosfan bws o'r fath gofynwyd a fyddai'r Cyngor Cymuned yn ysgwyddo'r baich. Penderfynnwyd mai da o beth fyddai gosod arosfan bws, bydd y Clerc yn symud ymlaen i holi beth yw'r camau priodol .

ch. **Etholiad 2022 –** Daeth gohebiaeth i law y Clerc o Cyngor Cymuned Dolbenmaen, parthed yr Etholiad nol ym mis Mai llynedd a'r gwasanaeth a ddarparwyd gan yr Uned Etholiadau. Doedd gan Cyngor Cymuned Tudweiliog ddim enghraifft o unrhyw ddiffyg yn y gwasanaeth, felly ni all Cyngor Cymuned Tudweiliog roi unrhyw mewmbwn i'r mater.

d. **Deddf Llywodraeth Leol 1970- adran 136 ar gyfer 2023/24 –** Adroddodd y Clerc mai £9.93 yw'r swm priodol at ddibenion adran

137 am flwyddyn 2023/2024

**dd. Llifogydd ar yr A499 Cyngor Llanbedrog** – Wedi blwyddyn ers i Cyngor Llanbedrog gyflwyno cais i Cyngor Gwynedd a Cyfoeth Naturiol Cymur i gael datrusiad I'r broblem llifogydd ar lon A499 – does dim wedi digwydd. Gofynna Cyngor Llanbedrog am ein cefnogaeth unwaith eto drwy anfon llythyr at y Cyngor Sir yn gofyn iddynt edrych i fewn ar fyrder I'r mater.

**5. Rhannu'r Praesept –**

Cyflwynodd y Clerc Faentolen o sefyllfa ariannol y Cyngor Cymuned fel ag y ma ear 13eg Chwefror 2023 ynghyd ac amcan Wariant cyn Ebrill 2023.

Cyflwynodd hefyd ceisiadau ar gyfer ystyriaeth, penderfynwyd Rhannu fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Mynwentydd Bro Madryn | - £600.00 |
| Mynwent Tudweiliog | £500.00 |
| Mynwnet Dinas | £200.00 |
| Canolfan Llaniestyn | £200.00 |
| Canolfan Tudweiiog | £200.00 |
| Canolfan Llangwnnad | £200.00 |
| Cylch Meithrin Edern | £300.00 |

**6. Unrhyw fater arall-** Doedd dim mater arall.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 13eg Mawrth 2023 am 7.30yh